Arglwydd mawr y cyfrinachau

Caneuon Ffydd: Rhif 101

Arglwydd mawr y cyfrinachau,
ti yw saer terfynau'r rhod,
artist cain yr holl ddirgelion
a chynlluniwr ein holl fod:
creaist fywyd o ronynnau
a rhoi chwyldro yn yr had;
rhannu, Iôr, wnest ti o'th stordy
amhrisiadwy olud rhad.

Maddau inni yr arbrofion
sy'n ymyrryd â dy fyd;
mynnwn ddifa yr holl wyrthiau,
ceisiwn chwalu pob rhyw hud:
er in dreiddio draw i'r gofod,
er in dyllu yn y nen,
para 'rydym ni heb ddeall
am y wyrth tu hwnt i'r llen.

Arglwydd, cyfarwydda'n hymchwil
a goleua'r deall hwn,
gad in dreiddio i'r hanfodion
ac amgyffred cread crwn:
boed i'n meddwl fedru canfod
gallu mwy na gallu dyn,
a phob arbrawf yn datgelu
gronyn bach yn fwy o'r llun.

DAFYDD WHITTALL

MYFYRDOD

Mewn dyddiau pan mae gwyddonwyr ar waith yn ceisio 'mapio' dirgelion y corff dynol a rhoi trefn ar y genynnau sydd yn ein gwneud ni yr hyn ydym ni, peth braf yw cael emyn fel hwn sy'n clodfori 'Arglwydd mawr y cyfrinachau . . . artist cain yr holl ddirgelion'.

Enillodd Dafydd Whittall gystadleuaeth Emyn 2000 gyda'r emyn hwn. Mae'r emyn yn clodfori Duw fel creawdwr, ond hefyd yn mynd i'r afael â llawer o bryderon ein cyfnod ni ynghylch llygru daear Duw a'r goblygiadau inni fel stiwardiaid o'r adnoddau a roddodd Duw yn ein gofal. Mae yna ganlyniadau i'n hymchwil dibaid am wybodaeth ac i'n camddefnydd o'r wybodaeth honno ac adnoddau'r ddaear.

Gofynna'r emyn am faddeuant i ddynoliaeth sydd yn ymyrryd cymaint bellach â'r byd creëdig. Yr ydym yn ein

hymchwil, yn ceisio gosod ein hunain yn lle Duw, gan gredu'n aml mai ein hawl ni bellach yw llunio ac addasu bywyd newydd. Ond nid ydym ni ronyn yn nes at ddeall o ble y daeth bywyd. Ac er ein bod yn deall llawer am ddirgelion y corff, ni all yr ymchwil hwnnw ddweud dim wrthym ni am ddirgelion yr ysbryd a'r enaid: 'para 'rydym ni heb ddeall am y wyrth tu hwnt i'r llen'.

Ond nid yw pob ymchwil yn ddrwg. Gofynna Dafydd Whittall am arweiniad i'r ymchwil gwyddonol hwn o eiddo dyn. Duw ei hun sydd wedi rhoi deallusrwydd ac awydd am wybodaeth i ddynolryw, ac o gael goleuni Duw fe allwn ni roi y deall hwnnw ar waith er daioni yn ein byd. Trueni yn aml, onid pechod yn wir, yw gweld ymchwil gwyddonol a fwriadwyd er daioni, yn cael ei roi ar waith i ddifa ac achosi poen. Mae'r potensial hwnnw ym mhob darganfyddiad, er daioni, neu er drygioni, a'r her a'r cyfrifoldeb i ni yw gwneud iawn ddefnydd o'r hyn a ddatguddir gan ein gwyddonwyr.

Llawn fwriada Duw inni ryfeddu at ei ddirgelion. Nid gwneud i ni ein hunain deimlo'n uwch ein gallu na Duw oherwydd i ni ddatgloi rhai o ddrysau dirgelion y greadigaeth a ddylai ein hymchwil. Ond bwriada i'r dirgelion hynny ein tynnu ni yn nes ato ef ei hun mewn rhyfeddod at ei allu a'i fawredd a'r dirgelion lu sydd eto'n aros heb eu treiddio. Dyma ymateb y Salmydd i ddirgelion Duw: 'Clodforaf di; canys ofnadwy a rhyfedd y'm gwnaed; rhyfedd yw dy weithredoedd; a'm henaid a ŵyr hynny yn dda.' (Salm 139:14 BWM).

Mae Duw yn hollwybodus, yn gwybod y dirgelion i gyd. Ef yw'r 'gallu mwy na gallu dyn'. At y gallu mawr hwnnw y rhyfeddais innau fel rhiant ar ôl gweld llun 'scan' o un o'r plant yng nghroth ei fam, yn mesur dim mwy na hyd gewin bys bach, ond eto roedd ei wneuthuriad yn amlwg, ac er y gallem ni ei weld drwy gyfrwng y 'scan', fe wyddem fod Duw wedi bod ar waith yn llunio'r bywyd bach cyn i ni ei weld: 'Gwelodd dy lygaid fy nefnydd di-lun; y mae'r cyfan wedi ei ysgrifennu yn dy lyfr' (Salm 139:16).

GWEDDI

Clodforaf di, Arglwydd, am fy mod i'n gwybod mai dy eiddo di yw'r holl ddirgelion, ac mai ti sydd hefyd yn dewis datguddio rhai ohonyn nhw inni. Gad inni iawn ddefnyddio pob gwybodaeth a roddi inni er lleddfu angen ein byd. Gan wybod hefyd dy fod wedi datguddio popeth sydd angen inni ei wybod er mwyn inni brofi hedd a bywyd tragwyddol, yn Iesu Grist dy Fab. Amen.